# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-14-08)

### SLC157

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

### Teitl: Rheoliadau Labelu Bwyd (Datgan Alergenau) (Cymru) 2008

- yn diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996 ("y prif Reoliadau") ymhellach i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu yng Nghymru Gyfarwyddeb y Comisiwn Rhif 2007/68/EC y 27 Tachwedd 2007 (OJ Rhif L310, 28.11.2007, p. 11) sy'n diwygio Atodlen IIIa i Gyfarwyddeb 2000/13/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran cynhwysion bwyd penodol), i eithrio'n barhaol rai cynhwysion bwyd rhag eu labelu, oherwydd, o ganlyniad i brosesu, nad ydynt bellach yn cynnwys yr elfen alergenig. Mae'r cynhwysion o dan sylw yn gynhwysion sy'n debygol o achosi adwaith alergaidd mewn rhai defnyddwyr. Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r prif Reoliadau o ran y gofynion labelu ar gyfer bwydydd sy'n cynnwys cynhwysion alergenig ac yn darparu cyfnod trosiannol ar gyfer bwydydd sy'n cael eu marcio, eu labelu neu eu gwerthu cyn 31 Mai 2009.

### Gweithdrefn : Negyddol

O dan Reol Sefydlog 15.2 (vi) bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn (bod gwaith drafftio'r offeryn yn ddiffygiol a (vii) ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr y testun Cymraeg a'r testun Saesneg.

Mae'r Atodlen i'r fersiwn Saesneg o'r Rheoliadau yn cyfeirio at "Content to be inserted as Schedule A1 to the Food Labelling regulations 1996", pan ddylai'r cyfeiriad at yr Atodlen mewn gwirionedd ddarllen "Schedule AA1".

Yn yr un modd mae'r Atodlen i'r fersiwn Gymraeg o'r Rheoliadau hefyd yn cyfeirio at "A1", pan ddylai mewn gwirionedd ddarllen "AA1".

Mae fersiwn Gymraeg y Rheoliadau yn cyfeirio at "Reoliad 2 (6)" pan ddylai mewn gwirionedd ddarllen "rheoliad 2 (7)", er mwyn adlewyrchu fersiwn Saesneg y Rheoliadau.

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi datgan ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd a grybwyllir uchod. Nid yw'r gwallau yr adroddwyd arnynt yn debygol o achosi unrhyw gamddealltwriaeth ac yn unol â hynny, diwygir y Rheoliadau er mwyn cywiro'r drafftio gwallus pan gaiff y Rheoliadau eu diwygio nesaf.

Cynghorwyr Cyfreithiol
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Ebrill 2008